OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 862 (Cy. 219)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Tredegar, Blaenau Gwent i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Awst 2016* |
| *Yn dod i rym* | *5 Medi 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn o Gefnffordd Castell-nedd - Y Fenni (yr A465) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd y traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a/neu gyfyngu arno oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Tredegar, Blaenau Gwent i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn

ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” *(“works period”)* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5 Medi 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn(au) o’r gefnffordd” *(“the length(s) of the trunk road”)* yw’r darnau hynny o’r gefnffordd ym Mwrdeistrefi Sirol Blaenau Gwent, Caerffili a Merthyr Tudful a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “lluoedd arbennig” *(“special forces”)* yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru'n gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru'n gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru'n gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 mewn grym.

**Atal Dros Dro**

**8.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.** (1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Awst 2016

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Tredegar hyd at ei chyffordd â chylchfan yr A4060 yn Nowlais, gan gynnwys y ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Tredegar a Chyfnewidfa Rhymni.

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol cylchfan Dowlais Top hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Tredegar, gan

gynnwys y ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Tredegar a Chyfnewidfa Rhymni.

**ATODLEN 2**
**Terfynau Cyflymder Dros Dro o 50 mya, 40 mya neu 10 mya a Dim Goddiweddyd**

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyfnewidfa Tredegar hyd at ei chyffordd â chylchfan yr A4060 yn Nowlais.

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy’n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol cylchfan Dowlais Top hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyfnewidfa Tredegar.